**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** T M White (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | E W Fitzgerald | M Jones |
| F D O'Brien | V A Holland | W G Lewis |
| | | S Pritchard |

**Aelod(au) Cyfetholedig**
Beth Allender

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**
Y Cynghorydd C A Holley, P R Hood-Williams, L R Jones, S M Jones

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R C Stewart, Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorydd D H Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol (Dirprwy Arweinydd)
Y Cynghorydd Elliott King – Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: P M Black
Aelod(au) Cyfetholedig Statudol: Elizabeth Lee

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd F D O'Brien – gysylltiad personol â Chofnod Rhif 13 – Craffu Cyn Penderfynu – RhGA7 Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - Prosiect Hwb Cymunedol, a chysylltiad personol â Chofnod Rhif 15, RhGA7 Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - Prosiect Hwb Cymunedol.

## 5 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 6 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Mai a 18 Mai 2023 fel cofnodion cywir.

## 7 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 8 Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu'.

Nodwyd, ers Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cyngor, fod y pwyllgor bellach yn cynnwys 10 Aelod, sy'n llai na'r gorffennol, a bu newidiadau i'r aelodaeth. O ran aelodau, roedd y pwyllgor hefyd yn cynnwys Aelodau Cyfetholedig Addysg Statudol - fel yr eglurwyd yn Adran 3 yr adroddiad.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am reoli'r holl weithgarwch craffu o fewn y cyngor, drwy un Rhaglen Waith (a fyddai'n cael ei thrafod yn eitem 9 ar yr agenda).

Mae gwaith naill ai'n cael ei wneud gan y pwyllgor neu caiff ei ddirprwyo yn rhywle arall. Bydd gan y pwyllgor gynllun gwaith a bydd yn sefydlu Paneli a Gweithgorau i archwilio pynciau neu faterion penodol sy'n peri pryder er mwyn galluogi pob Cynghorydd anweithredol i gymryd rhan yn y broses Graffu, waeth beth fo'i aelodaeth ar y pwyllgor.

Mae aelodaeth Paneli/Gweithgorau, yn ogystal â phenodi Cynghorydd arweiniol (a elwir yn Gynullydd) yn fater i'r pwyllgor benderfynu arno. Esbonnir rôl Cynullydd yn yr adroddiad hefyd (adran 4).

Bydd y pwyllgor yn monitro gweithgareddau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau bod y Rhaglen Waith yn cael ei chyflwyno'n effeithiol, ac yn unol â dymuniadau'r pwyllgor.

Adroddwyd hefyd am Gylch Gorchwyl y pwyllgor er gwybodaeth.

Yn flaenorol mae'r pwyllgor hefyd wedi'i chael hi'n fuddiol cyfethol (a hynny heb bleidlais) y Cynghorwyr hynny a benodwyd yn gynullyddion y Panel Perfformiad nad ydynt eisoes ar y Pwyllgor. Dangoswyd y rhain ym mharagraff 4.4. o'r adroddiad.

Gan fod y pwyllgor yn gyfrifol am Graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus amlasiantaeth, mae hefyd wedi croesawu cynrychiolwyr o asiantaethau partner i gynorthwyo gyda'r gwaith craffu hwnnw, a ddangosir yn Adran 5.

Er mwyn parhau i wneud hynny, roedd angen i'r Pwyllgor adnewyddu trefniadau cyfethol o'r fath bob blwyddyn, ac felly gofynnwyd iddo gytuno ar hyn eto.

Yn olaf, dywedodd fod gwaith tîm yn bwysig i lwyddiant y pwyllgor, a bod rhai ystyriaethau ymarferol a allai helpu i gyflawni hyn, a rhoddwyd rhai enghreifftiau ynghylch gweithio'n effeithiol. Roedd yr adroddiad yn annog aelodau, boed yn rhai hir eu gwasanaeth neu'n rhai newydd, i fyfyrio ar y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd fel grŵp, yn cynllunio gwaith, ac yn cynllunio ar gyfer cyfarfodydd; a gwerthuso pa mor dda mae pethau wedi mynd, ac ystyried unrhyw le i wella o ran y ffordd y mae'r Pwyllgor yn gweithio.

**Penderfynwyd:** -

1) Adnewyddu cyfetholiad cynullyddion y Paneli Perfformiad Craffu i'r Pwyllgor.
2) Adnewyddu cyfetholiad sefydliadau partner i alluogi cynrychiolwyr i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 9 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau

**Penderfynwyd** cytuno ar y newidiadau o ran aelodaeth a adroddwyd mewn perthynas â Phaneli a Gweithgorau.

## 10 Llythyrau Craffu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyrau canlynol, gan fyfyrio ar weithgarwch craffu diweddar y Pwyllgor:

- Craffu ar Drosedd ac Anhrefn – Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel – Llythyr at Gyd-gadeiryddion Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Partneriaeth Mwy Diogel Abertawe.

- Craffu cyn penderfynu – Adroddiadau Cyllideb y Gronfa Adferiad Economaidd - Llythyr at Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd).

## 11 Rhaglen Waith Craffu 2023/24

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau, fod yr adroddiad yn cynnwys y rhaglen ddrafft sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r rhaglen waith ddrafft yn ystyried rhaglen y llynedd, gwaith yr ymrwymwyd iddo eisoes ac adborth o'r Gynhadledd Cynllunio Gwaith ddiweddar a oedd yn cynnwys mewnbwn ar flaenoriaethau, heriau strategol, a materion cyhoeddus y cyngor. Roedd y rhaglen arfaethedig yn dangos y pynciau yr edrychir arnynt naill ai drwy

waith manwl, gweithgareddau monitro parhaus, neu drwy graffu bras, a phynciau y byddai'r Pwyllgor ei hun yn arwain arnynt.

Tynnodd sylw at yr ystyriaethau allweddol y gallai'r Pwyllgor feddwl amdanynt cyn cytuno ar y rhaglen, ac aeth â'r Aelodau drwy'r manylion. Amlygodd y canlynol:

- Byddai'r ymchwiliad nesaf yn canolbwyntio ar 'Asedau Cymunedol'.
- Byddai'r Panel Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid a'r Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio yn cael eu huno i greu Panel Perfformiad 'Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid' newydd, a fyddai'n cyfarfod yn fisol.
- Byddai pynciau cychwynnol y Gweithgor yn edrych ar: Gyswllt Cwsmeriaid, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a thyfu cymunedol.

Yn amodol ar gytundeb, ceisir datganiadau o ddiddordeb gan Gynghorwyr Craffu i gymryd rhan mewn gweithgareddau Craffu newydd. Cyfeiriodd hefyd at gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 a dywedodd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 19 Medi yn cynnwys sesiwn gydag Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd ar Deithio Llesol.

**Penderfynwyd:**

1) cymeradwyo'r Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2023/24, gan gynnwys pwnc yr Ymchwiliad newydd, trefniadau Panel Perfformiad diwygiedig, a phynciau blaenoriaeth y Gweithgor.
2) Cymeradwyo Cynllun Gwaith y Pwyllgor.

## 12 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol sydd ar ddod, er mwyn cael ymwybyddiaeth.

## 13 Craffu Cyn Penderfynu - RhGA7 Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - Prosiect Hwb Cymunedol

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a oedd yn rhoi arweiniad ar graffu cyn penderfynu cyn ystyried adroddiad y Cabinet ar RhGA7 Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen – Prosiect Hwb Cymunedol.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i gwestiwn a oedd yn herio lleoliad y Hwb Cymunedol a hygyrchedd. Dywedodd na fyddai'n ymarferol i ddad-ddirwyn y prosiect presennol, gyda'r dyluniad technegol bellach wedi'i gwblhau, peryglu cyllid grant sydd wedi'i sicrhau, a mynd i gostau ofer pe bai'r cyngor yn penderfynu nawr i edrych ar opsiynau eraill. Gwrthododd yr awgrym y byddai hen adeilad Debenhams yn lleoliad mwy addas, gan nodi bod y cyngor mewn trafodaethau gweithredol ynghylch ei ddefnydd yn y dyfodol gyda ffocws yn parhau ar fanwerthu. Roedd yn fodlon bod y Hwb Cymunedol ar Stryd Rhydychen/Princess Way, a fydd yn gartref i'r Llyfrgell Ganolog, yr Archifau a gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn lleoliad hygyrch.

## 14 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 15 RhGA7 Ailddatblygu 277-278 Stryd Rhydychen - Prosiect Hwb Cymunedol.

Bu'r Pwyllgor yn trafod Adroddiad ar y Cyd Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol a Diwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb, a oedd ar agenda 20 Gorffennaf y Cabinet i'w benderfynu arno.

Anerchodd Aelodau'r Cabinet, Arweinydd y Cyngor, a Phennaeth Gwasanaethau Eiddo’r Pwyllgor ac ymatebasant i gwestiynau.

Trafododd y Pwyllgor yr adborth y dylai ei roi i gyfarfod y Cabinet, y bydd y Cadeirydd yn bresennol i'w roi.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet i gyfleu barn y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.43pm.

Cadeirydd.